

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

STRATEGAETH TWRISTIAETH GERDDED

1. Rhagair

Nod y strategaeth hon yw chwilio am ffordd o ddatblygu cerdded fel cyfrwng i gyrraedd datblygiad gwledig cynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n archwilio'r ffordd o ymgorffori cerdded yn ddyfnach o lawer yn nhri philer economi, amgylchedd a chymuned

2. Adnoddyn Cerdded

Gydag amcangyfrif o 3848km o lwybrau ar agor i'r cyhoedd ac 800km² o fynediad agored, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig cyfle am fwy o fynediad nag unman arall bron yng Nghymru neu yn Lloegr. Er bod y lefel uchel hon o ddarpariaeth yn cynnig heriau rheolaethol sylweddol ac er bod rhaid ei defnyddio'n gyfrifol, mae ganddi hefyd y potensial i alluogi'r Parc i ddatblygu i fod yn un o brif gyrchfannau cerdded yn y DU.

Mae rhwydweithiau llwybrau cyhoeddus yn cyflawni llawer o orchwylion, gan gynnwys darparu mynediad amwynder (llwybrau i ysgolion, siopau, ac yn y blaen), a hyrwyddo ffordd iach o fyw trwy gyfleoedd am ymarfer corff yn yr awyr agored, yn ogystal â darparu seiliau economi twristiaeth gerdded. Ond, yn syml, does dim amheuaeth mai rhwydwaith y llwybrau cyhoeddus yw'r atyniad mwyaf i ymwelwyr yn y Parc, yn sail i incwm twristiaeth yr ardal.

Mae pum prif ffactor yn berthnasol i dyfiant a datblygiad cyfleoedd cerdded o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

- **Cyflwr y rhwydwaith mynediad.** Dangoswyd bod rhwydwaith y llwybrau cyhoeddus ym Mharc Bannau Brycheiniog ymhlith y gorau eu cyflwr yng Nghymru ond, yn nhermau ein cystadleuwyr, mae Lloegr 3 gwaith yn well na Chymru. Mewn termau economaidd, mae cerdded yn werth £550 miliwn i Gymru. Mae hyn yn dadlau o blaid buddsoddiad sylweddol yn yr is-strwythur gydag amcangyfrif am uwchraddiad i safon ddigonol yn £26 miliwn, a gwaith cynnal a chadw blynyddol o £8 miliwn. Yn nhermau lleol mae'n bwysig bod y gwaith cynnal a chadw yn parhau gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cyntuniedig.
- **Rheoli a thrwsio difrod erydu** Yn aml, nid yw mynediad ar y tir uchel yn gysylltiedig â llwybrau cyhoeddus, ond erys rheoli erydiad o bwys sylweddol.
- **Niweidio a difrodi bywyd gwyllt** Cydnabyddir yn eang bod cerdded yn cael effaith uniongyrchol isel ar yr amgylchedd. Ymddengys mai i gymunedau mawn a thir gwlyb y mae'r perygl mwyaf, a gall adar sydd yn nythu ar y llawr fod yn broblem benodol mewn rhai mannau. Cydgasglwyd data ar gynefinoedd a rhywogaethau a chynhaliwyd dadansoddiad o cyd-ddigwyddiad y mwyaf bregus o'r rhain â llwybrau cyhoeddus. Bydd rhaid gofyn am gyngor arbenigol pellach ar gyfer y mannau hynny cyn y gellir gweithredu cynlluniau a all gynyddu'r wasgedd.
- **Testunau diogelwch** Er bod Timau Achub Mynyddig yn adnoddau hanfodol, mae diogelwch yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflwr yr adnoddyn mynediad a'r wybodaeth sydd ar gael i'r ymwelwyr.
- **Parcio a thagfeydd** Mae'n ddigon posibl i lunio taith gerdded ym Mannau Brycheiniog gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dengys dadansoddiad o amledd mynediad bws ei bod yn bosibl cyrraedd bron pob rhan o'r Parc Cenedlaethol hyd yn oed gyda'r rhwydwaith bysiau cyfredol.

3. Dysgu am Gerdded

Mae llawer o lenyddiaeth yn bodoli ar gerdded ond nid yw'n cyd-lynol nac wedi ei thargedu'n arbennig o dda.

4. Twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol

Gwnaed llawer o waith i ddatblygu twristiaeth yn yr ardal hon yn y blynyddoedd diweddar ac mae angen adeiladu ar hyn gan ddefnyddio cerdded fel gyriant allweddol.

5. Marchnadoedd Cerdded

Er bod yr adnoddau cerdded yn amrywiol ac yn helaeth, maent yn arbennig o gyfoethog ar gyfer cerddwyr hyderus, annibynnol eu meddylfryd. Ond mae llawer o ymwelwyr posibl â'r Parc heb gymaint â hynny o hyder, ac iddyn nhw mae cyfoeth yr adnoddyn yn amodol ar ansawdd yr is-strwythur mynediad a'r wybodaeth a ddarperir ar y cyfleoedd i'w defnyddio.

Un o nerthoedd allweddol Bannau Brycheiniog yw cerdded sydd yn cynnig her gymhedrol a gwobr dda am ymdrech. Dyma gynnyrch anodd ei gynnig gan nad yw'n galw am eithafion iaith marchnata er ei fod yn rhywbeth mae llawer o bobl yn chwilio amdano. Un o'r heriau pwysig i'r strategaeth hon yw datblygu iaith i fynegi hyn.

6. Cylchrannu'r farchnad

Ar sail dadansoddiad o werth, maint a rhwyddineb annerch y farchnad, dyma'r marchnadoedd am y maes hwn sydd â'r potensial i fod yn werthfawr:

Prif Farchnadoedd	Marchnadoedd Eilaidd
Ymwelwyr ac egwylwyr annibynnol yn aros mewn canolfan	Ymwelwyr yn cymryd gwyliau cerdded pecynnol
Ymwelwyr sydd yn gerddwyr yn bennaf	Teithiau cerdded i grwpiau (egwylwyr ac ymwelwyr dydd)
Ymwelwyr sydd yn gerddwyr achlysurol	Ymwelwyr dydd sydd yn gerddwyr yn bennaf
Ymwelwyr annibynnol sydd am gerdded y bryniau	

Ymwelwyr ac egwylwyr annibynnol yn aros mewn canolfan

- Parau ABC1 o bob oedran yn bennaf, gan ganolbwyntio ar goridor yr M4 a De Lloegr
- Teithiau cerdded hawdd yn y wlad o wahanol hydoedd, ond yn fwyaf cyffredin o gwmpas 5 i 7 milltir, 7 i 11 km. Mae cerddwyr mwy brwd yn ymddiddori mewn cerdded pellteroedd hwy a cherdded y bryniau. Mae teuluoedd yn debygol o gerdded pellteroedd llai. Mae unigolion iau sydd heb deulu eto yn debygol o gael eu denu gan her gymedrol.

Ymwelwyr sydd yn gerddwyr yn bennaf

- Mae cerdded yn chwarae rhan wrth ddewis cyrchfan gwyliau. Dau fath gwahanol - parau a theuluoedd (llawer llai) - y naill a'r llall yn ABC1
- Parau yn chwilio am deithiau cerdded hawdd yn y wlad o dua 4 i 6 milltir, 6 i 9km, ar draws tir cymharol addfwyn. Bydd cerddwyr mwy brwd yn cerdded yn bellach ond nid ydynt yn ymddiddori mewn cerdded y bryniau. Gorchwyl cyfathrachau allweddol wrth gyrraedd y grŵp hwn yw osgoi cysylltiadau â cherdded difrifol. Maent yn chwilio am gyfleoedd am weithgareddau mwy goddefol megis chwilota mewn trefi, bwyta ac yfed, yn ogystal ag am gyfleoedd am deithiau cerdded.

- Mae cerddwyr ar wyliau teulu'n chwilio'n bennaf am deithiau cerdded hawdd a byr hyd at 4 milltir , 6km, gyda phethau i blant o bob oedran eu gweld a'u gwneud ar hyd y daith. Mae teithiau'n gysylltiedig â dŵr yn arbennig o boblogaidd.

Ymwelwyr sydd y gerddwyr achlysurol

- Ymwelwyr sydd yn mynd ar daith gerdded fer yn ystod eu gwyliau, ond fel gweithgaredd achlysurol neu eilaidd. Nid yw'r gweithgaredd yn ffactor wrth benderfynu ar gyrchfan y gwyliau. Mae'r segment yn cynnwys pob oedran, grŵp cymdeithasol-economaidd ac oedran.
- Mae'n bosibl y byddant ond yn cerdded tra ar eu gwyliau ac mae'r rhan fwyaf heb offer da am gerdded. Mae'r bobl hyn yn ymddiddori mewn teithiau cerdded byr heb fod yn hwy na 2 i 3 milltir, 3 i 5km ar hyd llwybrau hawdd eu hadnabod a da eu harwyddion. Maent yn hoffi cerdded ar hyd neu at nodweddion penodol o'r dirwedd. Yr agwedd allweddol fydd cynnig profiadau cerdded sydd yn hawdd eu cyrraedd, yn addas, yn werthfawr a'u hannog i ymgymryd â nhw.

Egwylwyr Annibynnol sydd am Gerdded y Bryniau

- Yn bennaf grwpiau bach o ffrindiau rhwng 16 a 34 oed, yn gymysg ac yn grwpiau o fechgyn a dynion yn unig.
- Mae'r segment hwn yn chwilio am brofiadau cerdded llawn gweithgaredd ar dir gwyllt a heriol. Maent am gael cylchdeithiau o 8 i 15 milltir, 12-20km yn ogystal â Llwybrau Cenedlaethol neu deithiau hirfaeth. Mae atebion da ar gael yn enwedig yn hllith aelodau mwy meddal ac uchelgeisiol y farchnad hon.

Ymwelwyr cerdded diwrnod

- Mae ymwelwyr diwrnod yn gyfran sylweddol o gyfanswm ymwelwyr y Parc, llawer ohonynt yn dod i gerdded. Rhaid bod ffocws y strategaeth hon ar ychwanegu gwerth i ymweliadau sydd eisoes yn bodoli o fewn y segment hwn. I sicrhau gwariant, bydd yn bwysig i gynllunio teithiau cerdded sydd yn caniatáu amser am fwyta ac yfed ac am ymgais i'w troi yn ymwelwyr a fydd yn aros yn y dyfodol. Mae hyn i'w gyflawni ond trwy wella ansawdd y bwyd, diod, diwylliant a llely sydd ar gael, er mwyn rhoi 'rheswm am aros'. Gall fod yn werthfawr hefyd i datblygu cynhyrchion penodol i ddenu'r segment hwn i aros am fwy o amser – e.e. pecynnau penwythnosau o deithiau cerdded.

7. Tuag at Strategaeth

Nodau

Dyma nodau'r strategaeth twristiaeth gerdded:

- Datblygu a rheoli cyfleoedd i ymwelwyr fwynhau cerdded ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn ffyrdd a fydd yn dod â buddion economaidd a chymdeithasol newydd i'r ardal, tra'n lleiafu effeithiau amgylcheddol a chymuned andwyol.
- Codi amlygedd Bannau Brycheiniog fel gyrchfan dewis cyntaf i gerddwyr, ar sail ansawdd cerdded mewn amgylchedd tir uchel nad sydd ar gael yn unman arall yn Ne Prydain.

Amcanion

I gyrraedd y nodau hyn, adnabuwyd naw amcan:

- Datblygu is-strwythur cerdded amgylcheddol gadarn o ansawdd uchel sydd yn briodol i'r marchnadoedd targed a adnabuwyd.
- Darparu profiad cerdded a thwristiaeth ardderchog a fydd yn annog ail-ymweliadau mynych a chymeradwyaeth i gyfeillion.
- Annog yr ymwelwyr hynny sydd eisoes ag ymrwymiad i'r Parc ystyried ymestyn eu hymweliadau a gwario mwy mewn cysylltiad â'u gweithgaredd cerdded

- Annog yr ymwelwyr hynny sydd eisoes ag ymrwymiad i'r Parc ystyried ymweliadau newydd, yn enwedig y tu allan i'r prif dymhorau a lle'n bosibl yng nghanol yr wythnos.
- Annog ymwelwyr newydd i ystyried Bannau Brycheiniog fel cyrchfan cerdded a all gynnal arhosiad unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Defnyddio pob cyfle hysbysrwydd sydd ar gael i hyrwyddo mwynhad o gerdded yn y Parc Cenedlaethol
- Defnyddio pob cyfle hysbysrwydd a dehongli sydd ar gael i hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau'r Parc Cenedlaethol a'u parchu
- Annog ymwelwyr i gadw milltiroedd car i'r lleafswm
- Monitro effeithiau twristiaeth gerdded ar economi, cymunedau ac amgylchedd yr ardal

8. Blaenoriaethau Datblygiad y Cynnyrch

Awgrymir y blaenoriaethau datblygiad cynnyrch canlynol :

- Portffolio o deithiau cerdded syml, 2 i 3 milltir, sydd yn cynnig profiadau werthchweil syml ar gyfer ymwelwyr presennol, yn cwrdd lle bynnag yn bosibl â safonau cyffredinol (mynediad lleiaf gyfyngol, parcio, toiledau, arwyddion da).
- Detholiad o brofiadau cerdded hawdd (4 i 6 milltir) wedi'u hintegreiddio'n dda â manau dethol am fwyta ac yfed.
- Portffolio o brofiadau cerdded hawdd (5 i 7 milltir) sydd yn cynnig profiadau gwerthchweil ac sydd yn hawdd eu cyrraedd i lety gweinyddedig, gan ganolbwyntio ar ddwyrain a gogledd-ddwyrain y Parc .
- Portffolio o brofiadau cerdded mwy heriol (7milltir+). Dylai'r rhain fod yn hawdd eu cyrraedd o ystod o lety sydd yn debygol o gynnwys nifer o deithiau cerdded yn ardaloedd canolog a gorllewinol y Parc
- Gwybodaeth teithiau cerdded mynyddig ar sail ymchwil dda (8 i12 milltir), a ddatblygir mewn cydgysylltiad â llety grwpiau, gan gynnwys lleoedd hunan-arlwyio mwy o faint, ac a hyrwyddir trwyddynt.
- Rhagor o deithiau cerdded tywysedig yn canolbwyntio ar deithiau cerdded 'cymhedrol' ac sydd yn cynnwys teithiau cerdded ganol wythnos.
- Llwybr, neu lwybrau hamdden hirfaith.

9. BLAENORIAETHAU AM WEITHREDU

9.1 Datblygu is-strwythur cerdded o ansawdd uchel

Adnoddau mynediad

Mae gallu cystadleuol Bannau Brycheiniog fel cyrchfan twristiaeth gerdded yn dibynnu ar gynnig i ymwelwyr profiad cerdded yn gallant eu defnyddio â hyder di-amod.

- Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid sicrhau safon lleiafysymiol o gyflwr llwybrau ar dros yr holl rwydwaith mynediad, a bydd y Cynllun Gwella Llwybrau Cyhoeddus yn ystyried y problemau hyn mewn cyd-destun ehangach. .
- Mae angen buddsoddiad ychwanegol wrth baratoi a chynnal y rhannau hynny o'r rhwydwaith mynediad a ddewisir fel blaenoriaethau am ddatblygiad y cynnyrch twristiaeth.
- Creu rhwydwaith Llwybrau Blaenoriaeth gyda'r Cynllun Gwella Llwybrau Cyhoeddus sydd wedi eu diffinio yn rhannol yn ôl eu gwerth i dwristiaeth
- Cynyddu'r nifer o aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol sydd â chefnidir mewn twristiaeth

Ystyriaethau Amgylcheddol

Dylid cynllunio twristiaeth gerdded i beidio â gwaethygu problemau presennol rheoli ymwelwyr

- Dylid gosod meini prawf sydd yn ymdrechu i osgoi creu problemau newydd fel uchelgeisiau am gynhyrchion newydd.
- Datblygu côd ymarferion da yn debyg i un yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Gellir rhannu'r meini prawf hyn a'u trafod â chyhoeddwr a newyddiadurwyr masnachol gyda'r posibilrwydd o ddyfarnu 'nod ansawdd' i ddangos pa lwybrau sydd yn cwrdd â'r meini prawf.
- Bydd annog datblygiad a hyrwyddiad llwybrau cerdded yn seiliedig ar fentrau llety unigol yn helpu gwasgaru gwasgedd ymwelwyr.
- Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried y goblygiadau rheoli yn y dyfodol o gynnal unrhyw gynnyrch newydd i safon uchel y bydd yn ei sefydlu ac yn ei gefnogi.

Ystyriaethau anabledd

- Dylai'r Cynllun Gwella Llwybrau Cyhoeddus gymryd i ystyriaeth anghenion yr anabl.
- Wrth i adnoddau mynediad dyfu, dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu amlygedd mynediad haws o fewn yr ardal i bobl anabl.
- Mae'n amlwg y dylid rhoi blaenoriaeth cynnal a chadw i'r llwybrau hynny a wellwyd er mynediad haws gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

9.2 Darparu profiad cerdded ardderchog

- Dylai unrhyw lwybr a gymeradwyir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gael ei gynnal yn dda, fod yn rhydd o broblemau ac yn dda ei arwyddion.
- Datblygu busnesau llety a thwristiaeth eraill sydd 'y gorau o'i fath' ac yn 'werth ardderchog am arian'.
- Gellir ychwanegu hynodrwydd i brofiad cyffredinol aros ym Mannau Brycheiniog trwy deithiau cerdded byr yn gysylltiedig â bwyd lleol. Gall argaffaeledd bwyd da yn gynnar yn y diwetydd annog cerddwyr i fwyta neu i aros yn hytrach na mynd adref yn syth.
- Dylid denu mentrau newydd i'r cynllun Croeso Cerddwyr.
- Datblygu cynllun grantiau neilltuol am wella adnoddau busnesau twristiaeth ar gyfer cerddwyr
- Dylid cynnig detholiad o gyfleoedd cerdded sydd yn cwrdd ag anghenion marchnadoedd ymwelwyr craidd â'r Parc, gan gynnwys cerddwyr llai pybyr.
- Gellir cwrdd â'r angen sylfaenol i ddarparu portffolio o deithiau cerdded syml, 2 i 3 milltir trwy ddatblygu'r gyfres o daflenni o fath y 'Mannau'r Glannau'.
- Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, dylid sefydlu safonau cyffredinol (mynediad lleiaf gyfyngol, parcio, toiledau, arwyddion da)
- Dyled targedu cerddwyr hamdden achlysurol trwy ddsbarthu'n eang y taflenni perthnasol trwy gydol y Parc, gan gynnwys trwy'r holl sectorau llety.
- Dylid annog sefydlu Grŵp Twristiaeth Gerdded, i ddod â rhwydwaith o fentrau twristiaeth adnabyddiedig at ei gilydd. Gall nodau'r Grŵp gynnwys:
 - Cynnig rhaglen hyfforddiant.
 - Annog gweithredwyr i gymryd rhan mewn 'Croeso Cerddwyr'.
 - Annog gweithredwyr i gynnig cyfleoedd cerdded arbennig i'w hymwelwyr.
 - Cynnig cefnogaeth i fentrau wrth ddatblygiad llwybrau newydd.
 - Datblygu ffurf safonol am gyflwyno gwybodaeth ar deithiau cerdded
 - Ffurio partneriaeth â phartner yn y sector masnachol i drefnu ymlaen llaw i ddenu rhai o'u cwmseriaid ag ysgogiadau priodol i arbrofi llwybrau cerdded

arfaethedig newydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac adrodd yn ôl arnynt cyn iddynt gael eu ffurf derfynol a'u cyhoeddi. Byddai hyn yn rhoi ôlborth ar lwybrau unigol, a hefyd yn cynnig cyfle ehangach am ymchwil y farchnad.

- Gweithio â chymunedau lleol i ddatblygu pentrefi a threfi unigol fel 'bothau cerdded'

9.3 Annog ymwelwyr cerdded i ymestyn ymweliadau a gwario mwy.

- Dylid cyflwyno syniadaeth o ddiwrnod cyfan, wythnos gyfan ym mhob gweithgaredd gyda'r wasg a'r cyfryngau, gan sicrhau diwedd glo i ddiwrnod egnïol o gerdded â lletygarwch ymlaciol.
- Dylai gwybodaeth am gyfleoedd cerdded awgrymu cysylltiadau â thaith gerdded a fwynhau eisoes neu ymhelaethiad o honno.
- Gwneud cysylltiadau mewn gwybodaeth teithiau cerdded rhwng tirwedd y Parc Cenedlaethol a chynnyrch lleol.
- Dylai Llwybrau Cerdded fel mater o arfer enwi lleoedd cysylltiedig am fwyta ac yfed, naill ai ar y daith neu yn agos at y man cychwyn neu'r diwedd.
- Dylid defnyddio meysydd parcio i roi gwybodaeth am leoedd cyfagos am fwyta ac yfed. Byddai gwybodaeth ar-sgrîn yn ddelfrydol os yn ymarferol.
- Mae angen casgliad o brofiadau cerdded sydd wedi'u hintegreiddio'n dda â detholiad o leoedd am fwyta ac yfed.
- Dylid annog ymwelwyr i ystyried ymweliadau ganol wythnos i ffwrdd o'r amserau brig.
- Dylid rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am gyfleoedd i ddod yn ôl adeg arall i fwynhau cerdded mewn mannau eraill o'r Parc Cenedlaethol, neu adegau eraill o'r flwyddyn.
- Targed penodol yw cael ymwelwyr diwrnod i ystyried aros dros nos yn y dyfodol.
- Dylid datblygu pecynnau megis Penwythnosau Teithiau Cerdded gyda'r sector masnachol.
- Dylid integreiddio cerdded â chynigion o ansawdd ym meysydd diwylliant, bwyd a diod a llety.

9.4 Annog ymwelwyr cerdded newydd

- Sefydlu Pwynt Gwerthu Unigryw i'r ardal yn seiliedig ar ansawdd cerdded y tiroedd uchel nad sydd ar gael yn unman arall yn ne Prydain.
- Hyrwyddo neges gerdded gyson i'r ardal i'w defnyddio gan bob un o'r partneriaid.
- Cefnogi ymgyrch *Cerdded Cymru*'r Bwrdd Croeso a rhai partneriaid eraill gan ddatblygu cynhyrchion priodol i'r cerddwyr pellteroedd byrion mwy hamddenol.
- Hyrwyddo cyd-ymgyrch gyda'r nod ar annog arosiadau tymor isel neu ganol wythnos, gan ddefnyddio'r cylchgrawn 'Country Walking' fel cyfrwng hyrwyddo.
- Trefnu atodolyn neu erthygl arbennig ar yr ardal i 'Country Walking'.
- Canolbwyntio ar arosiadau penwythnos neu hwy mewn mewnosodolyn ar gyfer cylchgronau a ddosberthir yn Ne Ddwyrain Lloegr a choridor yr M4.
- Dylid ceisio cefnogaeth y Bwrdd Croeso am ymestyn ymgyrch Cerdded Cymru i hyrwyddo cerdded cymhedrol o heriol ym Mannau Brycheiniog.
- Ail-wampio Ffordd y Bannau mewn partneriaeth â Chymdeithas Parc Bannau Brycheiniog fel y brif daith gerdded ranbarthol. Mae angen ei haddasu i gwrdd â meini prawf twristiaeth, a dylai'r broses hon gynnwys gweithredwyr llety trwy gyfrwng Grŵp Twristiaeth Gerdded.

9.5 Hyrwyddo mwynhad cerdded yn y Parc Cenedlaethol

- Dylid archwilio gwybodaeth cerdded gyfredol yng ngoleuni anghenion marchnadoedd allweddol, er mwyn cynllunio darpariaeth yn y dyfodol.

- Creu hysbyseb ateb-yn-ôl yn crynhoi'r ystod o gyfleoedd cerdded ym Mannau Brycheiniog, a sut i gael rhagor o wybodaeth.
- Dylai gwybodaeth ar y teithiau gynnig disgrifiad clir o'r dewisiadau cerdded sydd ar gael. Gwelir agwedd 'Country Walking' fel safon dda.
- Datblygu gwefan cerdded sydd yn arwain y diwydiant gan ddefnyddio mapiau rhyngweithredol a darparu awgrymiadau am gerdded fel llwythiadau i lawr a rhoi dolennau rhyngddynt a gwybodaeth twristiaeth.
- Dylid integreiddio gwybodaeth cerdded a ddarperir gan Ganolfannau Gwybodaeth (pwy bynnag sydd yn eu rheoli) fel y gall ymwelwyr gael gwasanaeth cyfatebol ble bynnag y byddant yn mynd am y wybodaeth honno. Bydd hyn yn golygu hyfforddiant a hysbysiadau rheolaidd i staff canolfannau gwybodaeth.
- Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddatblygu agwedd gyson tuag at arddangos a hyrwyddo cerdded ar draws Canolfannau Gwybodaeth y Parc Cenedlaethol a Chanolfannau Gwybodaeth Ymwelwyr.
- Datblygu'r defnydd o sgriniau cyffwrdd yn rhoi gwybodaeth twristiaeth mewn ardaloedd gwledig lle'n briodol.
- Sefydlu system cyfathrebu syml i gynnal mentrau twristiaeth wrth ddsbarthu detholiadau o wybodaeth cerdded priodol i'w gwesteion.
- Datblygu partneriaid masnachol i lunio ffurf gwybodaeth cerdded Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gwrdd â diddordeb y farchnad yn y System Lleoli Daearol a Mwyar.
- Datblygu digwyddiadau cerdded yn seiliedig o gwmpas y defnydd o'r dechnoleg hon.

9.6 Hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

- Datblygu ymgyrch wybodaeth i ddenu cefnogaeth am gerdded â rheolaeth dda o fewn y Parc Cenedlaethol, gan ddylanwadu ar ymwelwyr i gyfyngu eu heffaith ar yr amgylchedd. Gellid trefnu hyn yn fwyaf effeithlon mewn partneriaeth ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill.
- Dylid datblygu Côt Ymddygiad am gerdded y tiroedd uchel.
- Dylai unrhyw bartneriaeth â chyhoeddwy'r masnachol fynnu ymgorfforiaeth o'r negesau hyn.
- Dylid ymgorffori negesau cerdded a thwristiaeth gerdded yn strategaeth dehongli gyfannol Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Arolygu'r rhaglen o Deithiau Cerdded Tywysedig yng ngoleuni'r blaenoriaethau a adnabuwyd gan segmentau'r farchnad yn y strategaeth hon.
- Dylid cynyddu dehongliadau ym mhob mynedfan allweddol
- Mae gwybodaeth teithiau cerdded yn galluogi ymwelwyr i ddysgu am nodweddion arbennig y Parc, trwy gyfrwng cyfres o deithiau cerdded themataidd ar, er enghraifft, bywyd gwyllt.

9.7 Cadw milltiroedd ceir i'r lleiafswm

- Annog ymwelwyr i gadw milltiroedd ceir i leiafswm trwy gynnwys arhosiad dros nos fel rhan o'u hymweliad ac awgrymu teithiau cerdded o'r llety neu o fannau cyfagos.
- Mewn partneriaeth â chymunedau lleol, dylid datblygu cyfres o 'drefi cerdded' neu 'bentrefi cerdded'. Dylid canolbwyntio cefnogaeth ar gymunedau detholedig sydd yn barod i gwrdd â meini prawf twristiaeth a rheolaeth.
- Paratoi gyfres o fesuriadau twristiaeth gerdded yn seiliedig ar gymunedau i gefnogi cymunedau o'r math.

- Annog mentrau twristiaeth i gynllunio llwybrau cerdded ar gyfer eu hymwelwyr sydd yn seiliedig ar eu llety. Dylid ysgrifennu'r mesuriadau uchod gan gymryd i ystyriaeth busnesau yn ogystal â chymunedau.
- Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus sydd yn cwrdd ag anghenion cerddwyr. Dylid ystyried mynediad gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn faen prawf am bob taith gerdded Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Cynnal a datblygu ymrwymadau presennol Awdurdod y Parc Cenedlaethol i drafnidiaeth gyhoeddus hamddenol (e.e. Bws y Bannau).
- Dylid arolygu gwasanaethau trafndiaeth am eu gallu i gysylltu datblygu cyfleoedd cerdded ac adnoddau twristiaeth a busnes.
- Hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus fel rhan o holl brofiad ymweliad cerdded, gan gynnwys awgrymu ffyrdd am gynnal llwybrau llinellol a lle y gellir cynnig cludiant i fannau uchel am gychwyn teithiau yn y tiroedd uchel.
- Yn ystod y tymor, gallai minibysiau arbennig 'cerdded' yn gweithio ar alw wasanaethu coridorau llety a mynedfeydd poblogaidd.
- Gellid cynnig hyfforddiant 'Croeso Cerddwyr' a chydnabyddiaeth i weithredwyr trafndiaeth gyhoeddus a gyrwyr tacsis.
- Dylid annog gweithredwyr llety i hyrwyddo gwasanaethau o'r math.
- Dylid annog gweithredwyr llety sydd yn datblygu eu llwybrau eu hunain i ymwelwyr i gynnwys trafndiaeth gyhoeddus yn y llwybrau cerdded
- Dylid gweithio â Threnau Arriva i ddatblygu a hyrwyddo teithiau cerdded ar sail y trenau i'r Fenni a Llanymddyfri a Llandeilo.

9.8 Monitro effeithiau twristiaeth gerdded

- Sefydlu tîm cyflawni strategaeth yn cynnwys cynrychiolwyr y partneriaid cyflawni allweddol a busnesau twristiaeth.
- Bydd monitro a gwerthuso cyfraniadau a chanlyniadau yn orchwyl allweddol o'r grŵp hwn.
- Bydd rhaid datblygu a diweddarau'r strategaethi hun. Dylid gwneud hyn yn flynyddol, gydag adolygiad pwysig efallai bob bum mlynedd.
- Mae monitro blaenoriaethau'n cynnwys:
 - Cydgasglu gwybodaeth sylfaenol ar gyflwr llwybrau ym mhob lleoliad allweddol ar lwybrau bregus, a sefydlu rhaglen monitro rheolaidd.
 - Monitro defnydd trwy gyfrifellau a osodir yn strategol ac a ddadansoddir i safon gyson a chymharoladwy, gan gyd-lynnu pob cam o weithgaredd rhwng rheolwyr tir allweddol.
 - Monitro mynegyddion amgylcheddol cytunedig am effeithiau ar lwybrau allweddol.
 - Cael mentrau llety a'u hymwelwyr i fonitro llwybrau cerdded, gan greu man cysylltu clir am hysbysu am broblemau a pheryglon.
 - Sefydlu cyfathrebu rheolaidd â metrau twristiaeth a chymunedau lleol sydd yn cofnodi lefelau perfformiad, defnydd a boddhad ac sydd yn adnabod problemau.